

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
A GYNHALIWDYD AM 9.30AM AR 30 MAWRTH 2021 YN NHŶ HASTINGS A
THRUY TEAMS**

Yn bresennol: Dr Deborah Evans-Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Mr Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes); Miss Carys Vaughan (Swyddog Cymorth Tîm).

Amser dechrau: 09:37

Amser gorffen: 11:38

Ymddiheuriadau: Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd friff i'r Comisiwn ar y cyfarfod cynharach â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LIC):

- Mae'r Comisiwn wedi cael gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yn gofyn am ragor o wybodaeth am arolygon Caerdydd, Caerffili a Sir y Fflint. Crybwyllodd yr Is-adran Noddi y dylai'r ymateb gynnwys yr holl wybodaeth gefndir berthnasol.
- Ar hyn o bryd, mae LIC yn blaenoriaethu arolygon yn ôl y rhai sydd â'r nifer fwyaf o amrywiadau, ac maent yn gweithio ar Orchmynion ar yr un pryd wrth i grwpiau o arolygon gael eu prosesu.
- Cydnabu'r Comisiwn ei fod wedi derbyn y Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2021/2022.
- Bydd Gorchymyn Cymunedol Sir Fynwy yn cael ei gymeradwyo cyn cyhoeddi'r Adroddiad Argymhellion Terfynol ym mis Mehefin.
- Bydd yr holl waith ar y Cytundeb Fframwaith yn cael ei ohirio nes bydd Llywodraeth newydd yn ei lle ar ôl etholiadau'r Senedd 2021.
- Mae LIC wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol ac wedi anfon neges e-bost at gyrff cyhoeddus yn gofyn iddynt ystyried y meysydd ar 'Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth' wrth ymgymryd â'u gwaith.

- Mae Theo Joloza a Julie May wedi cael llythyr gan y Gweinidog yn cynnig ymestyn eu penodiadau hyd 31 Rhagfyr 2021.
- 2.2. **Nodwyd** fel rhan o'r ymarferol ôl-arolwg, y bydd angen i'r Comisiwn edrych ar rôl Comisiynydd at y dyfodol, gan gynnwys y swydd ddisgrifiad, yn ogystal â chryfhau dyletswyddau'r Comisiynwyr Arweiniol.
 - 2.3. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod y Comisiwn yn adolygu rôl y Comisiynydd dros yr ychydig fisoedd nesaf.
 - 2.4. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn paratoi gohebiaeth berthnasol i'w hanfon at randdeiliaid ar ôl cwblhau Rhaglen Arolygon Etholiadol 2017 ym mis Mehefin 2021.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021

- 3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau.

4. Materion yn Codi

- 4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 22 Mawrth 2021 gan y Prif Weithredwr ar faterion yn codi.
- 4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd, gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd cyfredol yn ymwneud â'r materion canlynol:

- **(Mater 1) Rhaglen Newid**
Mae'r Arolwg Staff yn mynd rhagddo tan 19 Ebrill 2021 a bu nifer fawr o ymatebion. Caeodd yr ail arolwg Covid-19 heddiw, a chafwyd cyfradd ymateb o 100%.
- **(Mater 2) Cytundeb Fframwaith**
Ni fydd unrhyw gynnydd nes i'r llywodraeth newydd gael ei hethol.
- **(Mater 3) Arolygon Etholiadol – Caerdydd, Caerffili a Sir y Fflint**
Cafwyd llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gofyn am fwy o wybodaeth am yr arolygon, ac mae ymateb yn cael ei baratoi.
- **(Mater 4) Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

Ni chafodd y Comisiwn unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng 16 Chwefror 2021 a 22 Mawrth 2021.

- **(Mater 5) Ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg**
Bydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno.
- **(Mater 6) Llythyr Cylch Gwaith**
Derbyniwyd y llythyr hwn ar 25 Mawrth 2021, a bydd yn cael ei gylchredeg i staff ac Aelodau'r Bwrdd. Yn ogystal â'r cynnwys disgwylidig, bydd y Comisiwn yn edrych ar hygyrchedd ei adroddiadau.

5. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 22 Mawrth 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, a **nodwyd** y canlynol:
- 5.2. Arolwg Sir Fynwy yw'r arolwg diwethaf i'w gwblhau yn y rhaglen Arolygon Etholiadol. Opsiynau terfynol yw'r eitem nesaf ar yr Agenda, a bydd yr Adroddiad Terfynol yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ar 13 Ebrill, gyda dyddiad cau o ganol mis Mehefin ar gyfer ei gyhoeddi.
- 5.3. Gwnaed y newidiadau i'r Gofrestr Risg y gofynnwyd amdanynt yn y cyfarfod ym mis Chwefror.

6. Arolwg Etholiadol Sir Fynwy – Opsiynau terfynol

- 6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 23 Mawrth 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 6.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 1, sef Gofilon, Llanelli a Llan-ffwyst Fawr, a chytunodd ar Opsiwn 1. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Llan-ffwyst Fawr a Gofilon, a Llanelli.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad hwn:

- Mae'n cynnig cyfanswm cyffredinol o bedwar aelod (mae pedwar aelod ar hyn o bryd).
- Mae'n cadw un (33%) o'r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n creu un ward aml-aelod newydd yn yr ardal, yn unol â mwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd.
- Mae'n cael gwared â dwy ward etholiadol un-aelod bresennol yn y rhanbarth.

- Ni ragamcenir y bydd gan unrhyw un o'r wardiau lefel amrywiant etholiadol sydd +/-25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 4 aelod, yn unol â'r aelodaeth bresennol.

Mae'r Comisiwn yn argymhell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

Enw Saesneg	Enw Cymraeg
Llanfoist Fawr and Govilon	Llan-ffwyst Fawr a Govilon
Llanelly	Llanelli

- 6.3. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 2, sef Goetre Fawr, Brynbuga a Llanbadog, a chytunodd ar Opsiwn 1. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Goetre Fawr, a Llanbadog a Brynbuga.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad hwn:

- Mae'n cynnig cyfanswm cyffredinol o dri aelod (mae tri aelod ar hyn o bryd).
- Mae'n cadw tair (33%) o'r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n creu un ward aml-aelod newydd yn yr ardal, yn unol â mwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd.
- Mae'n cael gwared â dwy o'r wardiau etholiadol un-aelod presennol yn y rhanbarth.
- Ni ragamcenir y bydd gan unrhyw un o'r wardiau lefel amrywiant etholiadol sydd +/-25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 3 aelod, yn unol â'r aelodaeth bresennol.

Mae'r Comisiwn yn argymhell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

Enw Saesneg	Enw Cymraeg
Goetre Fawr	Goetre Fawr
Llanbadoc and Usk	Llanbadog a Brynbuga

- 6.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 3, sef Llanfihangel Troddi, Tryleg Unedig a Rhaglan, a chytunodd ar Opsiwn 2. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Rhaglan, a Llanfihangel Troddi a Thryleg Unedig.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad hwn:

- Mae'n cynnig cyfanswm cyffredinol o dri aelod (mae tri aelod ar hyn o bryd).
- Mae'n cynnig gwelliant o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Mae'n cadw un (33%) o'r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae creu un ward aml-aelod ychwanegol, yn unol â mwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd.
- Nid oes unrhyw ward yn rhagori ar amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 3 aelod, yn unol â'r aelodaeth bresennol.

Mae'r Comisiwn yn argymhell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod, gan ychwanegu treigladd at y Gymraeg:

Enw Saesneg	Enw Cymraeg
Mitchel Troy and Trellech United	Llanfihangel Troddi a Thryleg Unedig
Raglan	Rhaglan

- 6.5. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 4, sef Bulwark a Thornwell, Larkfield a St Kingsmark, a Chastell Cas-gwent, a chytunodd ar Opsiwn 4. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol, sef Bulwark a Thornwell, Castell Cas-gwent a Larkfield, Mount Pleasant a St Kingsmark.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad hwn:

- Mae'n cynnig cyfanswm cyffredinol o chwe aelod (mae pum aelod ar hyn o bryd).
- Mae'n cadw un (33%) o'r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n creu un ward aml-aelod newydd a dwy ward ag un aelod yn yr ardal.
- Mae'n cael gwared ag un o'r wardiau etholiadol dau-aelod presennol yn y rhanbarth.
- Ni ragamcenir y bydd gan unrhyw un o'r wardiau lefel amrywiant etholiadol sydd +/-25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

- Mae'n mynd i'r afael ag amrywiant Castell Cas-gwent yn y dyfodol.

Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 6 aelod, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.

Mae'r Comisiwn yn argymhell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

Enw Saesneg	Enw Cymraeg
Bulwark and Thornwell	Bulwark a Thornwell
Chepstow Castle and Larkfield	Castell Cas-gwent a Larkfield
Mount Pleasant	Mount Pleasant
St Kingsmark	St Kingsmark

6.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 5, sef Dwyrain Magwyr gyda Gwndy, a Gorllewin Magwyr, a chytunodd ar Opsiwn 1. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Dwyrain Magwyr a Gorllewin Magwyr. Ystyriodd y Comisiwn opsiwn amgen i greu tair ward ag un aelod yn yr ardal; fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn darparu lefelau uchel o amrywiant.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad hwn:

- Mae'n cynnig cyfanswm cyffredinol o dri aelod (mae tri aelod ar hyn o bryd).
- Mae'n cadw'r holl wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Nid oes unrhyw ward yn rhagori ar amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

Mae'r opsiwn hwn cyfanswm o 3 aelod, yn unol â'r aelodaeth bresennol.

Mae'r Comisiwn yn argymhell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

Enw Saesneg	Enw Cymraeg
Magor East with Undy	Dwyrain Magwyr gyda Gwndy
Magor West	Gorllewin Magwyr

6.7. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 6, sef Drybridge, a chytunodd ar Opsiwn 1. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Drybridge ac Y Dref.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad hwn:

- Mae'n cynnig cyfanswm cyffredinol o ddau aelod (mae dau aelod ar hyn o bryd).
- Nid yw'n cadw unrhyw rai o'r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n creu dwy ward etholiadol ag un aelod yn yr ardal.
- Ni ragamcenerir y bydd gan unrhyw un o'r wardiau lefel amrywiant etholiadol sydd +/-25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 2 aelod, yn unol â'r aelodaeth bresennol.

Mae'r Comisiwn yn argymhell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

Enw Saesneg	Enw Cymraeg
Drybridge	Drybridge
Town	Y Dref

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig Cyngor â 46 o aelodau, sydd un aelod yn fwy na'r aelodaeth bresennol.

6.8. **Gweithredu** – caiff teitl map Rhanbarth 3 ei newid o MCC.

6.9. **Gweithredu** – caiff treigladd ei ychwanegu at yr enwau Cymraeg ar gyfer Rhanbarth 3.

7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Mawrth gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nodwyd** y trosglwyddwyd cyllid rhwng categorïau amrywiol y gyllideb i fynd i'r afael â thanwariant amcangyfrifedig, ac y cymeradwywyd hyn gan y Comisiwn. Roedd y sefyllfa ar ddiwedd mis Chwefror yn dangos tanwariant o £12,949.

- 7.3. Crybwyllwyd bod y Cymorth Grant terfynol wedi'i dynnu i lawr ar gyfer 2020-21, ac y tynnwyd cyfanswm o £765,197 o ddyraniad o £772,720, gan adael £7,523 heb ei dynnu i lawr erbyn diwedd y flwyddyn.

8. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

- 8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Mawrth 2021 gan y Rheolwr Cyllid, a **chytunwyd** ar y newidiadau canlynol:
- 8.2. Dylid ychwanegu Sir y Fflint a Chaerffili, ynghyd â Chaerdydd, at y camau lliniarol ar gyfer CR1, er cyflawnrwydd.
- 8.3. Gellir israddio'r sgôr risg gweddilliol ar gyfer CR2 i 15 oherwydd dealltwriaeth gliriach o'r sefyllfa yn ymwneud â'r posibilrwydd y bydd y Gweinidog yn gofyn am waith arolwg pellach.
- 8.4. Gellir ychwanegu mesurau lliniaru at CR3 yn ymwneud â'r Comisiwn yn cyhoeddi Datganiad i'r Wasg ar ddiwedd y rhaglen Arolygon Etholiadol, yn rhoi gwybod i'r awdurdodau lleol bod y rhaglen arolygon wedi'i chwblhau. Dylid newid y 'Disgrifiad o'r Risg' i 'Niwed difrifol i'n henw da a rhaglennu arolygon yn y dyfodol'.
- 8.5. **Gweithredu** – Bydd y Rheolwr Cyllid yn diweddarau'r Gofrestr Risg â'r newidiadau cytûn.
- 8.6. **Gweithredu** – Bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu â Lisa James/LIC ynghylch y niwed posibl y gellir ei achosi i enw da'r Comisiwn, a rhaglenni arolygon yn y dyfodol, os na chaiff ei argymhellion eu rhoi ar waith ar gyfer etholiadau 2022.

9. Adroddiad ar gyfarfod ARAC ar 24 Chwefror 2021

- 9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 5 Mawrth 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 9.2. **Nodwyd** y cynnwys.

10. Adroddiad Blynyddol Cadeirydd ARAC 2020-21

- 10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Mawrth 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 10.2. **Nodwyd** y cynnwys.

10.3. **Cytunwyd** y dylid diwygio 5.1 yn ymwneud â'r sicrwydd risg blynyddol i 'rhesymol o sicr' yn hytrach na 'sylweddol sicr'.

10.4. **Gweithredu** – Bydd y Rheolwr Cyllid yn diweddarau 5.1 i 'rhesymol o sicr'.

11. Datganiad Llywodraethu Drafft 2020-21

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 5 Mawrth 2021 gan y Rheolwr Cyllid, a **chytunwyd** ag ef yn amodol ar y mân newidiadau canlynol:

- Para 3.5 – Bydd y troednodion dros ben ar dabl presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn cael eu dileu.
- Para 3.8 – Bydd arolwg Bro Morgannwg yn cael ei ychwanegu at yr ail a'r trydydd paragraff.
- Para 3.8 – Bydd 'Caiff cyfarfodydd ag awdurdodau lleol eu cynnal o bell' yn cael ei ychwanegu at y pedwerydd paragraff.
- Para 7.3 – Dileu ' Y Comisiwn' o'r llinell gyntaf.
- Para 12 – Ail-eirio'r paragraff hwn, gan fod yr archwiliad manwl o ddiogelwch TCGh yn cael ei baratoi, ond mae'n annhebygol o gael ei gynnal yn ystod 2021-21.

11.2. **Gweithredu** – Bydd y Rheolwr Cyllid yn diweddarau'r Datganiad â'r newidiadau cytûn.

12. Polisi Chwythu'r Chwiban

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 5 Mawrth gan y Pennaeth Busnes.

12.2. **Cytunwyd** i fabwysiadu'r polisi â'r mân newidiadau canlynol:

- Ychwanegu esboniad o bwy yw TIAA Ltd at 'Cysylltiadau'.
- Ychwanegu'r Cadeirydd fel 'Hyrwyddwr Chwythu'r Chwiban' ar y Bwrdd.

12.3. **Gweithredu** – Bydd y Pennaeth Busnes yn diweddarau'r polisi â'r newidiadau cytûn.

13. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol (Diweddariad Llafar)

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r diweddariad llafar a roddwyd gan y Prif Weithredwr.

- 13.2. **Nodwyd** bod y swyddfa wedi ail-agor ar 1 Mawrth gyda 3-6 aelod staff yn bresennol ar yr un pryd, a bod y swyddfa ar gau ar ddyddiau Gwener o hyd. Gall staff weithio yn y swyddfa os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn unol â chanllawiau iechyd cyhoeddus. Mae cadw pellter cymdeithasol a defnyddio cyfarpar diogelwch personol yn parhau, a bydd y swyddfa'n gweithio ar y sail hon nes y ceir cyfarwyddyd neu arweiniad newydd gan LIC.
- 13.3. **Gweithredu** – Dylid ychwanegu 'yn unol â chanllawiau iechyd cyhoeddus' at gofnodion a phapurau wrth sôn am weithio yn y swyddfa.

14. Calendr Digwyddiadau

- 14.1. **Nodwyd** y calendr.
- 14.2. Dylai unrhyw newidiadau i'r Calendr gael eu hanfon drwy'r e-bost at y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

15. Unrhyw Fater Perthnasol Arall

- 15.1. Crybwyllodd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu nad oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw faterion eiddo deallusol yn ymwneud â logo'r Comisiwn.

16. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13 Ebrill 2021